

**DATGANIAD YSGRIFENEDIG  
GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

**Teitl:** Caffael Cyhoeddus yng Nghymru

**Dyddiad:** 18 Chwefror 2011

**Gan:** Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £4.3 biliwn, neu tua thraean o'i gyllideb, ar nwyddau a gwasanaethau allanol. Mae'r ffordd y caiff y rhain eu comisiynu a'u caffael yn cael effaith fawr ar effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus ac ar y gymuned fusnes yng Nghymru.

Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Mae'r adwaith i'r fframwaith adeiladu ysgolion diweddar a ddyfarnwyd gan Gyngor Sir Powys yn dangos lefel y pryder y mae busnesau yn gallu ei deimlo. Yn yr ymarfer hwn, rhannwyd y gwaith yn brosiectau llai a defnyddiwyd amodau a oedd yn ystyried 'budd i'r gymuned'. Mae gan y chwe chyflenwr a enillodd mewn cystadleuaeth agored swyddfeydd yng Nghymru ac maent yn cyflogi pobl leol. Hefyd, fel rhan o'r fframwaith, mae'n rhaid iddynt ddarparu cadwyn gyflenwi a chyfleoedd hyfforddi a datblygu lleol. Caiff canlyniad fframwaith adeiladu ysgolion pellach ei gyhoeddi'n fuan ac rwy'n ymwybodol bod cymysgedd o gyflenwyr wedi gwneud cais, gan gynnwys busnesau cynhenid. Fodd bynnag, i sicrhau ein bod yn sicrhau'r holl fanteision ac yn ymwybodol o unrhyw welliannau y gellir eu gwneud, rwyf wedi comisiynu ymarfer 'gwersi a ddysgwyd'. Mae'n hollbwysig ein bod i gyd yn deall ac yn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi ym maes caffael ac ar draws y gymuned fusnes ac yn cymryd y camau priodol. Byddaf yn adrodd yn ôl ar hyn maes o law.

Fel Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, â chyfrifoldeb dros gaffael cyhoeddus yng Nghymru, mae'n rhaid imi sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o bob punt 'Gymreig'. Rydym yn wynebu gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus, ac mae poblogaeth sy'n heneiddio a disgwyliadau cynyddol yn dwysáu'r galw am wasanaethau. Fel gwarcheidwaid arian cyhoeddus, mae'n rhaid inni anelu at arferion caffael enghreifftiol – ni fydd gwneud pethau yn yr un hen ffordd yn ddigon bellach. Mae'r camau rydym yn eu cymryd yn cydblethu â'r rheini a nodir yn *Adnewyddu'r Economi – cyfeiriad newydd*, ac oherwydd hyn rwyf wedi bod yn awyddus i annog cyflenwyr i ymgysylltu â ni ac ymchwilio i gamau ymarferol i wella'r sefyllfa yng Nghymru. Rwyf wedi sefydlu nifer o sianelau i wella'r ddeialog gan gynnwys y Grŵp Llywio Adeiladu a'r Panel Cyfeirio Cyflenwyr. Rwy'n hyderus y bydd gweithredu proactif yn creu perthynas gryfach byth rhwng y maes caffael cyhoeddus a busnesau yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod bod yr hinsawdd ariannol yn ei gwneud yn anos i fusnesau unigol ennill contractau cyhoeddus os ydynt yn fusnesau sy'n methu. Yn benodol, mae'r sector adeiladu yng Nghymru yn wynebu anawsterau real a chystadleuaeth gref.

I helpu i fynd i'r afael â her y toriadau enfawr o 40% yn ein cyllidebau cyfalaf yn y dyfodol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd camau sylweddol a phenderfynol, yn y flwyddyn ariannol hon ac yng Nghyllideb y flwyddyn nesaf, i warchod ein rhaglen gyfalaf, ac felly y diwydiannau adeiladu a'r diwydiannau cysylltiedig yng Nghymru, rhag anrhaith y toriadau enfawr hyn a orfodwyd arnom gan Lywodraeth y DU.

Yn ogystal, mae dulliau caffael sy'n seiliedig ar wybodaeth i raddau mwy wedi dod â budd i'n cymunedau lleol. Mae *Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig* wedi gweld contractau gwerth £12.5bn yn cael eu hysbysebu drwy *gwerthwchigymru*. Y llynedd hysbysebwyd 24% yn rhagor o gontractau gwerth is, a oedd yn addas i fusnesau bach. Drwy ein canllaw *Budd i'r Gymuned*, rydym wedi annog dull o gontractio cyfalaf sy'n canolbwyntio ar fudd lleol, gan greu nifer o gyfleoedd hyfforddi ac is-gontractio. Lle mae hyn wedi'i fabwysiadu, gwelwyd 30% yn fwy na'r cyfartaledd o fudd economaidd lleol yn sgil y buddsoddiad cyfalaf.

Mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan baneli Adnewyddu'r Economi, rydym yn mynd i'r afael â'r broses gyn-gymhwyso. Mae ein cyfres gwestiynau yn cael ei threialu ac, yn ystod y flwyddyn, caiff ei gwneud yn rhan o wefan *gwerthwchigymru*. Mae gan y prosiect *Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr* y potensial i leihau'n sylweddol y costau tendro am gyflenwyr – yr amcangyfrifir ar hyn o bryd ei fod dros £20m y flwyddyn.

Bydd y dull newydd hwn hefyd yn goresgyn rhai o'r rhwystrau y mae cyflenwyr llai yn eu hwynebu. Eisoedd rydym wedi gweld cwmnïau adeiladu llai yng Nghymru yn ennill 15 o 26 tendr mawr y llynedd. Yn y sector Tai gwelwyd cryn weithgarwch caffael ymhlith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Enillwyd 90% o'r gwaith hwn gan gyflenwyr yng Nghymru.

Yn gyffredinol mae'r gystadleuaeth yng Nghymru yn parhau'n gadarnhaol. Mae adolygiad o £3.5bn o wariant y sector cyhoeddus wedi dangos bod cyflenwyr Cymru yn ennill contractau – mentrau bach a chanolig oedd bron i 60% o'r 3400 o gyflenwyr a enillodd waith uniongyrchol gwerth rhwng £150k a £5m y flwyddyn ac roedd 1800 neu 51% o Gymru.

I edrych i'r dyfodol, hoffwn weld pethau'n newid yn gyflymach. Mae angen inni wneud mwy na gwella pethau bach yma ac acw ac ymroi i gamau arloesi sydd eisoes wedi'u cydnabod yn rhai call i'w cymryd. Mae hyn yn golygu arweiniad; mae'n golygu bod yn barod i weithredu'n gyflym ac yn ddewr er budd Cymru. Mae'n ddyletswydd ar arweinwyr y sector cyhoeddus i gymryd caffael o ddifrif a chymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir.

Hoffwn osod fy ngweledigaeth ar gyfer y dyfodol a rhoi neges glir ar yr hyn rwy'n ei ddisgwyl oddi wrth ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r gefnogaeth y byddaf innau yn ei rhoi drwy is-adran Gwerth Cymru Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi yr wyf yn ei gadeirio yn rhoi arweiniad ymarferol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

I ddechrau, 'gallu' – mae angen i bob sefydliad sicrhau bod ganddynt fynediad i'r lefel iawn o gyngor caffael masnachol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy fynediad i gymorth cyffredin. Ym mis Gorffennaf 2010 cyhoeddais y prosiect talent cartref, sy'n cael cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i ddatblygu'r gallu sydd ei angen arnom ledled Cymru. Mae'r gyfres gyntaf o hyfforddeion caffael yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd drwy Werth Cymru, a chaiff rhaglen hyfforddi ei chynnig i uwch-arweinwyr a swyddogion yn ystod 2011.

Yn ail, 'e-gaffael' – mae angen i bob sefydliad gael gwared â phrosesau llafurus diangen a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg. Mae *cyfnewidcymru* yn cynnig cyfres iawn o dechnegau e-gaffael ac rwyf innau'n cynnig cymorth i'w gweithredu drwy Fuddsoddi i Arbed a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Rhaid i bob sefydliad achub ar y cyfle hwn i wneud newidiadau sylweddol i'w busnes. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, dylai pob tendr a'r rhan fwyaf o archebion a thaliadau fod yn electronig. Gallai hyn ryddhau dros £50m yn nhermau amser staff.

Yn drydydd, 'cydweithredu' – caiff archwiliad o anghenion gwariant cyffredin a rheolaidd Cymru ei gynnal. Mae angen inni roi trefn ar ein gwariant a datblygu ffynonellau arbenigedd mewn meysydd gwariant mawr megis adeiladu, gofal cymdeithasol a TGCh. Drwy lif gwaith caffael y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi, dan arweiniad Prif Weithredwr Cyngor Sir Dinbych, comisiynwyd tasglu. Mae ei argymhellion a'i adroddiad, *Buying Smarter in Tougher Times*, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rwy'n falch bod dulliau newydd yn cael eu cynnig ac rwyf wedi gofyn i Werth Cymru helpu i weithredu ar y syniadau hyn ymhellach a'u datblygu. Gallai cydweithredu cryfach arbed tua £150m dros y 5 mlynedd nesaf os awn ati i gynllunio a chydweithio. Dangoswyd bod safoni ein manylebau a chael gwared ag amrywiaeth o ran eitemau cyffredin yn lleihau cost ac yn creu arbedion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r newidiadau rwyf wedi'u gweld wedi fy nghalonogi. Yn yr wybodaeth ddiweddaraf a roddais i'r Cynulliad ar y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi ym mis Medi, tynnais sylw at y cyfleoedd sy'n deillio o gytundebau cydweithredol a defnyddio prosesau caffael electronig. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, gwnaed arbedion o £11m yn sgil caffael cydweithredol ac mae dros 70% o sefydliadau yn defnyddio cytundebau mawr Gwerth Cymru neu rai Cymru gyfan erbyn hyn.

Mae mwy o bobl yn dechrau e-gaffael ond gallai'r lefel gynyddu a dylai wneud hynny. Ar hyn o bryd mae 7 Awdurdod Lleol, 158 o ysgolion o 5 ardal, y GIG cyfan bron a Llywodraeth y Cynulliad ei hun yn fyw ar gyfleuster e-fasnachu *cyfnewidcymru*; gyda llawer mwy o sefydliadau yn gwneud defnydd o e-dendro, cardiau prynu ac e-ocsynau. Nodwyd arbedion o £8m yn nhermau amser staff eleni ac arbedwyd 16 tunnell o CO2.

Yn bedwerydd – meithrin cadwyni cyflenwi Cymru. Mae angen i bob sefydliad chwarae eu rhan yn y gwaith o symleiddio prosesau caffael. Mae hyn yn golygu ceisio arbed arian yng nghyd-destun datblygu cadwyni cyflenwi Cymru

a sicrhau budd cymdeithasol o fuddsoddiad cyfalaf a chontractau refeniw mawr. Fel y nodais yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos hon, rwyf am weld pob contract cyfalaf a refeniw mawr yn gweithredu yn unol ag egwyddorion *Budd i'r Gymuned*, a byddaf yn ysgrifennu cyn hir at bob prif weithredwr i roi canllawiau newydd a'u hannog i weithredu. Rhaid i'n cyflenwyr wneud eu rhan i leihau costau, ond ar yr un pryd mae angen dull syn meithrin cadwyni cyflenwi cryf a chystadleuol yng Nghymru.

Mae cryn fanteision o achub ar y cyfleoedd sy'n codi. Gallwn arbed arian ac ar yr un pryd sicrhau budd cymdeithasol yn ein prif feysydd gwariant – cyn belled â'n bod yn datblygu ein gallu, yn goresgyn y rhwystrau ac yn ymrwymo i weledigaeth gyffredin i Gymru.